Community Lives Consortium

Supporting people to live the life they choose

# Tal Y Wern




# Hydref 2024

# Datganiad o Ddiben

| Adran 1: Ynglyn â'r darparwr | |
|---|---|
| **Darparwr gwasanaeth** | Consortiwm Bywydau Cymunedol |
| **Strwythur cyfreithiol** | Cwmni elusennol |
| **Prif Weithredwr** | Rick Wilson |
| **Unigolyn Cyfrifol** | Lynda Rosselli |
| **Rheolwr gwasanaeth** | Lisa Davies |
| **Enw'r gwasanaeth** | Tal Y Wern |
| **Cyfeiriad y gwasanaeth** | 22 Tal Y Wern, Margam, Port Talbot. SA13 2LZ |

*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*

## Adran 2: Disgrifiad o'r lleoliad a'r gwasanaeth

### a) Gwasanaethau mewn llety

Cafodd Tal Y Wern ei adeiladu gan Gymdeithas Dai Dewi Sant yn 2002. Mae bellach yn rhan o Gymdeithas Coastal Housing.

Mae Tal Y Wern ym Mhort Talbot ac mae'n fyngalo pwrpasol. Mae'r byngalo wedi'i leoli mewn clos sydd â mynediad hawdd i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae gardd o flaen ac wrth ochr yr eiddo, sydd wedi'i amgylchynu â wal. Mae man parcio mawr gyda chyfleuster parcio ar gyfer 6 cherbyd. Mae'r ddaear yn wastad ac yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ddrysau'n ddigon llydan o i gadeiriau olwyn Y tu ôl i'r eiddo mae lawnt fach â photiau blodau. Mae patio yn y rhan gefn ac wrth ochr y tŷ lle mae bwrdd a chadeiriau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaethau pan fo'r tywydd yn caniatáu. Mae'r ardd gefn yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn ac mae drws patio wrth ochr y drws cefn i fynd allan i'r ardd gefn.

Mae'r cwmpasoedd yn darparu gweithgaredd cymunedol, fel siopa/bwytai/caffis a thafarnau lleol, gwasanaethau dydd lleol/traeth a chlybiau. Caiff yr holl weithgareddau eu cefnogi gan aelodau staff.

Mae Tal Y Wern yn cynnig cymorth 24 awr - mae un aelod staff o leiaf ar ddyletswydd bob amser pan fod y defnyddwyr gwasanaethau gartref. Mae aelodau staff ychwanegol ar gael i fodloni anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaethau. Mae aelod o staff sy'n cysgu i mewn ar ddyletswydd bob nos i ddiwallu anghenion gofynnol y defnyddwyr gwasanaeth.

Cefnogir Tal y Wern gan y Consortiwm Bywydau Cymunedol. Mae Gwasanaethau Ar Alwad yn gweithredu y tu allan i oriau swyddfa. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi staff i siarad ag uwch reolwr a cheisio cymorth a chyngor yn ôl yr angen.

Mae Tal Y Wern wedi'i gofrestru ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol.

Nid yw'r Cartref wedi'i Gofrestru i ddarparu Gofal Nyrsio er y gellir gwneud trefniadau i nyrsys ardal ac ati ymweld yn ôl yr angen.

Mae Tal Y Wern yn darparu gwasanaethau yn ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae’r Gorllewin.

## Adran 3 Ynglyn â'r gwasanaeth a ddarperir

### a) Yr amrywiaeth o anghenion y gallwn eu cefnogi

Mae Tal Y Wern yn darparu cymorth i unigolion dros 18 oed sydd â'r cyflyrau canlynol:

- Unigolion ag Epilepsi
- Unigolion ag Anabledd Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu (diagnosis deuol)
- Unigolion â Nam ar y Synhwyrau

Mae angen cymorth ar y bobl hyn am amrywiaeth o resymau, yn cynnwys:

- mae ganddynt anabledd dysgu.
- mae ganddynt anabledd corfforol neu synhwyraidd

 o -‘Mae’r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8

- mae ganddynt anhwylderau sbectrwm awtistig
- mae ganddynt anhwylder iechyd meddwl

Pan fod angen cymorth arbenigol, rydym ninnau'n gallu cefnogi a darparu'r canlynol:

- Rheoli meddyginiaeth
- Rheoli epilepsi
- Rheoli problemau iechyd meddwl
- Cynnal iechyd y croen
- Rheoli nam ar y synhwyrau
- Cefnogi gofal diwedd oes

Pan fod angen i ni ddarparu'r gwasanaethau hyn, bydd ein staff yn cael eu hyfforddi gan weithwyr iechyd proffesiynol cymwysedig.

Rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth, i helpu pobl i:




**Fod yn ddiogel ac yn annibynnol yn eich cartref eich hun**
Gallai hyn gynnwys rhoi cymaint o annibyniaeth â phosibl i chi trwy gymorth gan staff, a gallai hyn gynnwys amrywiaeth o gymhorthion ac addasiadau a thechnoleg gynorthwyol arall. Byddai hyn hefyd yn helpu i godi unrhyw bryderon y gallai fod gennych chi neu bobl yn eich bywyd ynglŷn â'ch bywyd a'ch cymorth.

**Cael a chynnal eich cartref eich hun**
Gallai hyn gynnwys helpu i reoli eich cartref a chydymffurfio â thelerau eich tenantiaeth, a'ch helpu i fyw'n llwyddiannus gydag unrhyw bobl sy'n rhannu eich cartref.




**Mynd allan a chyfarfod pobl**
Gallai hyn gynnwys y cymorth a'r cyfleoedd eraill sydd eu hangen fel y gallwch fwynhau eich bywyd yn y gymuned mewn ffordd sydd mor annibynnol â phosibl, a chynnal rhwydweithiau o ffrindiau a theulu.



**Byw eich bywyd yn ystod y dydd**
Byddai hyn yn cynnwys cymorth i chi os nad ydych yn defnyddio gwasanaethau dydd, i fwynhau a datblygu eich bywyd trwy gyfleoedd cymdeithasol, hamdden a galwedigaethol yn ystod y dydd.



**Cynllunio a chofnodi eich Bywyd**
Byddai hyn yn cynnwys cymorth i gynllunio a chofnodi eich bywyd mewn ffyrdd sy'n eich cynnwys chi a'r bobl yn eich bywyd.

**Goresgyn rhwystrau i fywyd cymunedol**
Gallwn eich cefnogi chi a'ch tîm o staff i ddatblygu strategaethau sy'n eich helpu i osgoi ymddygiadau a allai eich niweidio chi neu'r bobl sydd o'ch cwmpas.

**Rheoli eich arian eich hun**
Bydd hyn yn cynnwys cymorth i gael y lefel gywir o help i reoli eich arian, ynghyd â'r cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen i fanteisio i'r eithaf ar eich incwm personol.



**Cael y cludiant sydd ei angen arnoch** Gallwn eich helpu i ddewis y cerbyd cywir i chi a sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn dda.



| | | |
|---|---|---|
| b) | **Ystod oedran y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth** | **18 oed a throsodd** |
| c) | **Gwasanaethau mewn Llety** | **Capasiti Mwyaf 4** |
| d) | **Nifer yr Oriau Gofal a gyflwynir** | **251 i 500 awr yr wythnos** |

## Adran 4: Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu

Mae Tal Y Wern yn darparu cymorth i unigolion dros 18 oed sydd â'r cyflyrau canlynol:

- **Unigolion ag Anabledd Dysgu**

  Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant personol-ganolog i gefnogi'r unigolion, gan gynnwys Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol, Symud a Chario, a rheoli Meddyginiaeth.
- **Unigolion ag Epilepsi**

  Ar hyn o bryd nid oes unrhyw unigolion â phroffil epilepsi. Os oes angen newid ar unigolion bydd staff yn cael hyfforddiant ar Epilepsi a rhoi meddyginiaeth achub.

  Bydd Proffil Epilepsi yn cael ei lunio mewn partneriaeth â'r Nyrs Gymunedol. Bydd Cynlluniau Cefnogi ac Asesiadau Risg yn cael eu llunio gan staff.

  Gallwn ddarparu technoleg â chymorth megis synwyryddion gwelyau i rybuddio staff a monitro patrymau trawiad.

- **Unigolion ag Anableddau Corfforol.**

  Mae gan Dal Y Wern addasiadau megis tracio uwchben, ystafell wlyb, gwelyau Hi-Isel sy'n galluogi unigolion ag anableddau corfforol i gael eu cefnogi'n gyfforddus. Rydym hefyd yn gallu cael mynediad at ystod o offer Technoleg â chymorth i gefnogi unigolion i fod yn fwy annibynnol neu i alw am gymorth. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi mewn Symud a Thrin, ac Iechyd a Diogelwch

***Trefniadau ar gyfer derbyn, asesu, cynllunio ac adolygu gofal pobl***

Pan ddaw atgyfeiriad ar gyfer Defnyddiwr Gwasanaethau newydd, cynhelir nifer o gyfarfodydd gyda'r rheolwr gofal, perthnasau, cynrychiolwyr CBC ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol eraill, a fydd yn ymweld â'r eiddo i asesu ei addasrwydd. Bydd tîm y Consortiwm hefyd yn cynnal asesiad cydiwr. Mae'r unigolyn yn cael ei gyflwyno i'w ddarpar ddeiliaid newydd - 'Dewch i'ch adnabod chi'. Mae hyn yn cychwyn gydag ymweliadau tîm ac yna'n raddol arosiadau dros nos, a symud ymlaen i ymweliadau penwythnos. Wedyn, pan fydd pawb sydd ynghlwm yn meddwl bod yr amser yn addas, bydd dyddiad symud i mewn yn cael ei drefnu. Weithiau gall y broses hon gymryd yn hirach nag ar adegau eraill. Mae cynllun manwl yn ei le bob amser y mae'n rhaid cadw ato.

Meini Prawf derbyn:-

- Atgyfeiriad gan yr Awdurdod Lleol
- Anabledd Dysgu fydd y Prif Gyflwr
- Asesiadau a gynhelir fel rhan o'r broses amlddisgyblaethol ac yn unol â pholisi derbyn a chychwyn y consortiwm bywydau cymunedol

***<u>Rheolwyr Gofal</u>***

Pob pob Defnyddiwr Gwasanaethau yn cael mynediad at Reolwr Gofal neu gellir cysylltu â rheolwr gofal ar ddyletswydd yn absenoldeb Rheolwr Gofal. Mae hwn fel arfer yn Weithiwr Cymdeithasol o'r Tîm Cymorth Cymunedol yng Nghastell-nedd a Phort Talbot.

Mae Rheolwyr Gofal yn trefnu adolygiadau rheolaidd o gynlluniau pob defnyddiwr gwasanaeth ac maen nhw hefyd yn monitro Cynlluniau Gofal Unigol a Chytundebau Gwasanaethau Unigol.

Mae Rheolwyr Gofal hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad cynllunio Asesiadau a Gofal Unedig.

Mae Tîm Anabledd Dysgu Castell-nedd Port Talbot ar gael fel rhwydwaith ehangach i ddarparu cymorth i unigolion, fel:

- Bwyta ac Yfed â Chymorth {SALT}\ I ddarparu cymorth i unigolion sydd ag anawsterau gyda llyncu a rhwystrau wrth fwyta ac yfed.
- Nyrs Gymunedol {yn arbenigo mewn anableddau dysgu} I ddarparu cymorth gyda newidiadau mewn ymddygiad/iechyd/meddyginiaeth/cyngor ar anghenion gofal.
- Therapydd Galwedigaethol: I ddarparu cymorth ac offer at ddibenion symudedd
- Ffisiotherapydd: I ddarparu cymorth ar ymddaliad/adferiad
- Cyfathrebu Cynhwysol: I ddarparu cymorth ar gyfathrebu dwys/technegau cyfathrebu a goresgyn rhwystrau i gyfathrebu.
- Seiciatrydd: I ddarparu cymorth ar iechyd meddwl a lles/meddyginiaeth ac adolygu anghenion iechyd.
- Nyrsys Ardal: I fonitro iechyd y croen/ iechyd a lles
- Y Tîm Acíwt: I ddarparu cymorth i osgoi mynd i'r ysbyty, hylifau IV, monitro anghenion iechyd a lles.
- Gweithiwr Cymdeithasol: I sicrhau bod lles ac anghenion yn cael eu bodloni. I ddarparu cymorth i gefnogi unigolion i gyflawni eu nodau. I ddyfeisio asesiadau unedig i sicrhau bod anghenion gofal yn cael eu bodloni.

a) **Safon gofal a chymorth**

**Bod mor gorfforol, meddyliol ac emosiynol iach â phosibl**

 o -*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*

Byddwn yn eich cefnogi i gymryd rheolaeth dros eich iechyd personol ble bynnag y bo modd, yn cynnwys rheoli eich meddyginiaeth, a byddwn yn eich annog yn weithredol i wneud dewisiadau bywyd iach.

Os cytunir bod angen mwy o gymorth arnoch yn y maes hwn, byddwn yn eich cefnogi i fynd i'r holl apwyntiadau iechyd sydd eu hangen arnoch yn cynnwys eich Archwiliad Iechyd Blynyddol, ymweliadau i'ch meddyg teulu a sgrinio gofynnol. Byddwn yn cadw ac yn cynnal yr holl gofnodion iechyd perthnasol mewn ffordd gyfrinachol.

Rydym yn cysylltu â rheolwyr gofal i'ch atgyfeirio ar gyfer pryderon iechyd penodol. Gall y rhain gynnwys Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion a fydd yn sicrhau eich bod yn cael y cyngor iechyd a'r offer cywir i'ch cefnogi'n effeithiol e.e. offer synhwyraidd, cymhorthion cyfathrebu, offer symud a thrin.

Mae cynlluniau ac asesiadau cysylltiedig â chymorth iechyd yn cael eu cwblhau a'u hadolygu yn rheolaidd. Mae cofnodion yn cael eu cadw i fonitro iechyd meddwl a lles corfforol fel y bo'n briodol e.e. gweithgaredd strôc, cymeriant hylif, siartiau arsylwi ar ymddygiad.

**Cynnal perthnasoedd teulu a phersonol**

Byddwn yn cefnogi eich dewisiadau i gynnal perthnasau teulu a phersonol yn weithredol drwy:

- gynnal perthnasoedd parhaus gyda pherthnasau fel y byddwch yn teimlo eich bod yn cyfranogi trwy gytundeb cynnwys perthnasau
- rhoi dewisiadau i chi ynglŷn â sut hoffech chi gynnal eich perthnasoedd e.e. ymweliadau, galwadau ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, ysgrifennu llythyrau, cynllunio digwyddiad cymdeithasol
- eich helpu i gynnal perthnasoedd presennol a datblygu perthnasoedd newydd trwy ymuno â grwpiau cymunedol lleol sy'n seiliedig ar ddiddordebau cyffredin
- eich cefnogi i fwynhau perthnasoedd personol agos o'ch dewis chi mewn amgylchedd diogel a sicr.

**Bod a theimlo'n ddiogel**

Rydym yn ymrwymedig i'ch cadw'n ddiogel a byddwn yn gwneud hyn drwy:

- weithio o fewn ein Polisi Diogelu a chydymffurfio â gweithdrefnau Diogelu Awdurdodau Lleol
- hyfforddi ein holl staff mewn Diogelu ac ar sut i adnabod ac adrodd am amheuon a honiadau o gam-drin
- gweithio o fewn ein Polisi Cyllid. bydd y staff a'r rheolwyr yn eich cefnogi i reoli eich arian i leihau'r risg o gam-drin ariannol ac ecsbloetio
- darparu copi o'n gweithdrefn gwyno a chanmol mewn fformat hygyrch
- gweithio o fewn ein Polisi Iechyd a Diogelwch i hybu cartref a gweithle diogel ac iach i chi a'ch staff. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd.

- darparu cynlluniau cefnogi/asesu risg personol i ddarparu ar gyfer anghenion unigol sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru pan fod angen.
- sicrhau bod asesiadau Technoleg Gynorthwyol yn cael eu cynnal i ddarparu cyfarwyddyd, gwybodaeth ac offer wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion unigol er mwyn hybu diogelwch. Mae hyn yn cynnwys synwyryddion ar ddrysau; synwyryddion epilepsi; monitorau symudiad ac ati.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau, diddordebau unigol a mynediad at gyfleoedd datblygu**

Bydd eich asesiad yn cynnwys eich diddordebau, hobïau, dyheadau a'ch nodau datblygu. Byddwn yn gweithio gyda chi i gynllunio sut i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Rydym yn defnyddio'r 'Model Cefnogi'n Weithredol' i gynnal sgiliau presennol a hybu dysgu sgiliau newydd. Mae hyn yn golygu cynllunio amrywiaeth o weithgareddau ar eich cyfer, fel tasgau domestig, hamdden, hobïau, gweithgareddau yn y gymuned leol. Efallai byddwn yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill fel y bo angen i'ch helpu e.e. Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd.

Byddwn yn eich annog yn weithredol i ymuno â'r amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau yn 'Time to Meet'.

Gallwn eich cefnogi i gynllunio gwyliau a thripiau diwrnod yn ôl eich dewis. Gellir darparu staff i fod yn gwmni i chi os oes angen.

Rydym yn hybu dysgu a datblygu cyfleoedd trwy:

- darparu cyfleoedd gofal dydd fel y cytunwyd yn eich cynllun
- eich cefnogi i gyrchu cyrsiau colegau a chymuned
- dod yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau gyda'r tîm gweinyddu 'Time to Meet'.

**Cynnal eich cyfathrebu, iaith a diwylliant**

**Cyfathrebu cynhwysol**

Rydym yn hybu ac yn defnyddio'r 'Model Cyfathrebu Cynhwysol' i gyfathrebu yn yr iaith a'r dull sydd fwyaf priodol i chi. Gallai hyn gynnwys cyfieithu, lluniau, arwyddion, cardiau fflachio, amlgyfryngau, gwrthrychau cyfeiriol ac ati. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi yn y dull hwn. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â therapyddion lleferydd ac iaith i gynnal asesiadau a datblygu cynllun cyfathrebu unigol i chi.

**Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru**

Mae ein Polisi'r Gymraeg yn disgrifio sut byddwn yn eich helpu i dderbyn unrhyw ran o'r cymorth a roddwn i chi drwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyma yw eich dewis.

Pan fyddwn yn cysylltu â chi a'ch cefnogwyr am y tro cyntaf, byddwn yn sefydlu beth yw eich iaith ddewisol ar gyfer cyfathrebu parhaus. Wedyn, mae asesiad mwy manwl yn dilyn fel rhan o'r 'Cynnig Gweithredol' sy'n anelu at eich helpu i nodi unrhyw agwedd o'ch cymorth yr

hoffech i ni ei chyflwyno drwy’r Gymraeg, hyd yn oed os nad Cymraeg yw eich iaith gyntaf. Gallai hyn gynnwys:

- rhoi gwybodaeth hygyrch i chi am y sefydliad a'ch cymorth yn y Gymraeg.
- cynnal cyfarfodydd ynglŷn â'ch cymorth yn y Gymraeg e.e. adolygiadau gwasanaeth
- sicrhau bod staff a rheolwyr yn cyfathrebu ac yn cynnal sgyrsiau â chi a'ch cefnogwyr yn Gymraeg
- defnyddio allweddeiriau a brawddegau Cymraeg sy'n bwysig i chi
- arwyddion Cymraeg yn y cartref e.e. toiled, ystafell ymolchi
- cadw cofnodion amdanoch chi a'r gwasanaeth a dderbyniwch yn Gymraeg
- gwirio p'un ai fod ymwelwyr i'ch cartref a gweithwyr proffesiynol eraill yn gallu cyfathrebu â chi yn y Gymraeg e.e. Meddygon Teulu, Rheolwyr Gofal
- sicrhau bod cyfryngau Cymraeg o'ch dewis ar gael i chi (e.e. teledu, rhaglenni radio, llyfrau, papur newydd, aps cyfrifiaduron)
- eich cefnogi i ddysgu neu wella eich sgiliau Cymraeg fel un o'ch deilliannau personol

Byddwn hefyd yn eich asesu a'ch helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol Cymraeg sy'n bwysig i chi e.e.

- gemau Rygbi Cymru
- Eisteddfodau
- Dydd Gŵyl Dewi
- Gwrando ar Gorau Meibion

Fel rhan o asesiad pob unigolyn ar gyfer cymorth, bydd staff yn helpu unigolion i archwilio agweddau ar eu diwylliant eu hunain ac unrhyw gredoau crefyddol sy’n bwysig iddynt.

Bydd staff Tal y Wern wedyn yn cynllunio unrhyw gymorth sydd ei angen i fynegi eu hunaniaeth ddiwylliannol ac arsylwi arferion crefyddol

Gallai hyn gynnwys:
:

- cefnogi unigolion i fynychu man addoli;
- cynllunio bwydlenni yn unol â gofynion dietegol;
- Hoffterau gofal personol i gynnwys defodau diwylliannol;
- neu wisgo dillad sy'n gysylltiedig â defodau crefyddol neu ddiwylliannol.

## Adran 5: Trefniadau Staffio

| | |
|---|---|
| a) **Niferoedd a chymwysterau'r staff** | **Rick Wilson - Prif Weithredwr**<br>**Cymwysterau:**<br>CQSW, BSc (Econ),<br>MSc<br>Mencap Homes Foundation 1986-1987<br>Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol CQSW<br>Ar hyn o bryd mae'n gweithio tuag at<br>Ddiploma Proffesiynol BTEC Uwch mewn Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol |

| | |
|---|---|
| | **Lynda Rosselli - Unigolyn Cyfrifol**<br>● Cymwysterau - NVQ Lefel 4 Gofal, NVQ Lefel 4 Rheolaeth, Dyfarniad<br>● Aseswr D32/33<br>● Diploma Proffesiynol BTEC Uwch mewn Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol<br>● Rheolwr Cofrestredig gydag AGGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru ers 21/12/2007<br><br>**Dean Bromham - Rheolwr Ardal 5**<br><br>**Cymwysterau:**<br>Diploma Lefel 5 QCF Arwain mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Dyfarniad aseswyr lefel 3 TAQA<br>Tystysgrif Hyfforddwr Allweddol; Hyfforddwyr Trin Pobl ac Asesu Risg;<br><br>**Lisa Davies - Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig**<br>**Cymwysterau:**<br>Diploma Lefel 5 QCF Arwain mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Dyfarniad IML Lefel 3 mewn arweinyddiaeth a rheolaeth<br><br>**Staff Eraill**<br><br>Ar hyn o bryd mae 7 o staff cymorth yn gweithio yn Nhal y Wern |
| **b) Lefelau staff** | Mae swm a lefel y cymorth sydd ei angen arnoch yn cael ei asesu'n unigol. Wedyn byddwn yn datblygu cynllun i fodloni eich anghenion ar gyfer cymorth dydd a nos. Bydd hyn yn cael ei gytuno gyda chi a'ch cefnogwyr a bydd yn cynnwys cyfuniad o gymorth unigol ac a rennir. Lle mae eich cymorth wedi'i gomisiynu gan awdurdod lleol neu ddarparwr iechyd, mae rota ar gyfer dyrannu staff i'ch cefnogi yn cael ei drefnu ar sail y cynllun hwn. Byddwn yn sicrhau bod gan y staff a'r rheolwyr yr hyfforddiant, sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'ch cefnogi'n effeithiol ac yn ddiogel, yn cynnwys bodloni unrhyw anghenion cymorth arbenigol sydd gennych.<br><br>Mae Tal Y Wern yn darparu gofal a chymorth 24 awr. Mae Tal Y Wern yn darparu cymorth yn ystod y dydd i ddarparu ar gyfer anghenion unigol, ac aelod staff effro yn ystod y nos i ddarparu ar gyfer anghenion unigol. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Consortiwm yn dirprwyo'r cyfrifoldeb o sicrhau bod cefnogaeth staff yn cael ei ddarparu ar y maint, amlder a chymhareb gywir i Reolwr Cartrefi Gofal Cofrestredig y gwasanaeth.<br><br>Bydd Rheolwr Cofrestredig y Cartref Gofal yn cynhyrchu rotâu staff wythnosol o leiaf 4 wythnos ymlaen llaw. Lle bo'n bosibl, bydd y rotâu hyn ar gael i bobl a gynorthwyir mewn fformat hygyrch.<br><br>Bydd y Rheolwr Cartrefi Gofal Cofrestredig yn cwblhau taflen amser fisol drwy'r system Roster ar ddiwedd bob mis i ddangos yr oriau unigol a weithiwyd gan bob aelod staff ac unrhyw absenoldeb oherwydd salwch, gwyliau blynyddol neu resymau eraill.<br><br>Am y manylion llawn, dylech gyfeirio at ein polisi ‘Rheoli Rotâu’.<br>Ni fydd disgwyl i'r unigolion sy'n derbyn cymorth arwyddo unrhyw system taflenni amser i gadarnhau presenoldeb staff. Bydd taflenni amser yn cael eu hawdurdodi gan y rheolwr dynodedig.<br><br>Mae'r Consortiwm yn cydnabod pa mor bwysig yw hi fod gan unigolion bobl maen nhw'n eu hadnabod ac y gallant ymddiried ynddynt i'w cefnogi. Pan fod staff naill ai'n sâl neu'n mynd i fod yn absennol am gyfnod, mae gan y Consortiwm weithdrefnau a pholisi yn eu lle i sicrhau parhad.<br><br>Yn gyntaf, bydd y Rheolwr Cartrefi Gofal Cofrestredig yn ceisio trefnu cyflenwi dros dro yn ystod salwch ac absenoldeb arall trwy ddefnyddio staff sy'n gweithio gyda'r bobl hyn yn barod, fel y'u rhestrir yn y canllaw i ddefnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Pan nad yw'r aelodau staff hyn ar gael, byddwn yn defnyddio staff dros dro rheolaidd. Dylai'r rhain fod yn gyfarwydd i'r person yn barod ac wedi’u rhestru hefyd yn y canllaw i ddefnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Tu allan i oriau – gall staff gael mynediad i’n system ‘Ar alwad’ a ddarperir gan 1 Rheolwr profiadol gyda’r nos neu ar benwythnosau i gysylltu ag ef mewn perthynas ag argyfwng. Gallant gael cymorth, cyngor a chyfeiriad ychwanegol ynghylch lefelau staffio gan Reolwyr Ardal rota. Wrth wneud hyn mae staff yn dilyn ein Polisi Ar Alwad / Ymateb.<br><br>Mewn amgylchiadau eithafol, bydd staff o wasanaethau eraill yn cael eu defnyddio naill ai o fewn y rhwydwaith neu asiantaeth ehangach. |
| **c) Staff arbenigol** | *Ni ddefnyddir y rhain yn Nhal Y Wern* |
| **d) Adleoli staff yn y gwasanaeth (ar gyfer gwasanaethau mewn llety yn unig)** | *Yn yr adran hon disgrifiwch sut fydd staff yn cael eu hadleoli ar draws yr amgylchedd gofal / dyluniad a chynllun y llety i arolygu a bodloni anghenion yr unigolion hynny. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer safleoedd â nifer o loriau neu nifer o adeiladau.*<br><br>*Wrth ddisgrifio lefelau staffio, gallech ddefnyddio niferoedd sefydlog neu gymarebau. Dylech esbonio sut mae'r lefelau dibyniaeth yn cael eu hystyried yn eich penderfyniad.*<br><br>*Efallai yr hoffech ddangos strwythur y staff trwy ddiagram.* |

| | |
|---|---|
| | **Strwythur Staff**<br>**Cartref Gofal Cofrestredig**<br>**Tal Y Wern**<br><br>**Rick Wilson**<br>**Prif Weithredwr / Person Cyfrifol**<br>↓<br>**Lynda Rosselli**<br>**Unigolyn Cyfrifol**<br>↓<br>**Dean Bromham**<br>**Rheolwr Ardal 5**<br>↓<br>**Lisa Davies**<br>**Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig**<br>↓<br>**(Kathryn James)**<br>**Dirprwy Reolwr Cartref Gofal**<br>**7 x staff cymorth**<br><br>Mae 2 aelod o staff cymorth ar ddyletswydd yn gweithio amrywiol sifftiau rhwng<br>7am a 10pm 7 diwrnod yr wythnos. Mae 1 aelod staff ar ddyletswydd hefyd rhwng 9pm a 7am 7 diwrnod yr wythnos.<br>Caiff y rota ei adolygu bob dydd i adlewyrchu anghenion, gweithgareddau, a diddordeb newidiol yr unigolion. Mae hyn yn golygu y gall y gymhareb staff gael ei chynyddu i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. |
| **e) Trefniadau ar gyfer tasgau dirprwyedig** | Pan fod angen tasgau gofal iechyd arbenigol, e.e. gweinyddu Buccolam Midazolam \ epilepsi \, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol allanol perthnasol yn arwain yr asesiadau risg a'r cynllunio cymorth cyn i'r tasgau hyn gael eu dirprwyo i staff. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant arbenigol, cyngor, cyfarwyddyd a monitro a ddarperir gan weithiwr iechyd proffesiynol allanol e.e. Tîm Gofal Acíwt |
| **f) Trefniadau goruchwylio** | Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn sesiynau goruchwylio chwarterol. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn sesiynau gwerthuso blynyddol gyda Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig.<br>Nod goruchwylio yw helpu staff i fyfyrio ar eu harfer a gwneud yn siŵr bod eu cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal, mae hyn yn |

| | |
|---|---|
| | cynnwys adborth am eu perfformiad wrth ddarparu cymorth a monitro cynnydd yn eu dysgu a'u datblygiad eu hunain. |
| **g) Hyfforddiant staff** | Mae'r anghenion hyfforddi yn cael eu hasesu ar gyfer pob aelod o'r staff yn unigol, yn dibynnu ar yr amrywiaeth o anghenion gofal sydd gan y bobl benodol maen nhw'n eu cefnogi. Gall hyn gynnwys y rhestr ganlynol:<br><br>● Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol<br>● Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol<br>● Anhwylder Sbectrwm Awtistig<br>● Meddyginiaeth<br>● Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu<br>● Cymorth Cyntaf<br>● Diogelu<br>● DoLs / Gallu Meddyliol<br>● Bwndel croen<br>● Rheoli heintiau<br>● Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân<br>● Hylendid bwyd<br>● Cyfathrebu Cynhwysol<br>● GDPR<br>● Cwynion<br>● Iechyd a Diogelwch<br><br>Nod ein rhaglen hyfforddi staff yw sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi gan staff cymwys a chymwys, sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i ddiwallu'ch anghenion cymorth, eich dewisiadau a'ch helpu chi i symud ymlaen yn eich bywyd. Rheolir y rhaglen gan y Tîm Dysgu a Datblygu, sy'n gweithio gyda rheolwyr gweithredol i sicrhau bod anghenion dysgu a datblygu'r holl staff a rheolwyr yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys: -<br><br>**Sefydlu** - Mae'r holl weithwyr newydd yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu. Ar gyfer staff cymorth a rheolwyr mae hyn yn cwrdd â safonau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a nodwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r cyfnod sefydlu hwn yn cynnwys cyfuniad o fynychu cyrsiau, hyfforddiant 'yn y gwaith' a chwblhau cyrsiau ar-lein<br><br>**Hyfforddiant penodol sy'n gysylltiedig â** chymorth unigol - Mae'n rhaid i'r holl staff ddilyn rhaglen o hyfforddiant ychwanegol a gynlluniwyd i roi'r wybodaeth a'r sgiliau penodol sydd eu hangen |

| | |
|---|---|
| | arnynt i ddarparu cymorth effeithiol a diogel sy'n canolbwyntio ar y person. Mae hyn yn seiliedig ar eich anghenion cymorth personol, ond gall gynnwys amrywiaeth eang o gyrsiau fel:<br>● Gwneud Penderfyniadau a Gallu Meddyliol<br>● Rheoli Epilepsi<br>● Anhwylder Sbectrwm Awtistig<br>● Deall ac ymateb i Ddementia<br>● Sgiliau Cymraeg<br><br>**Hyfforddiant Diweddaru** - Mae'n rhaid i rai mathau o hyfforddiant gael eu diweddaru'n rheolaidd e.e. Diogelu, Meddyginiaeth, Cymorth Cyntaf, Diogelu Data, Iechyd a Diogelwch, Symud a Thrin.<br><br>Mae rhaglen flynyddol o gyrsiau y gall staff eu mynychu neu gyrsiau ar-lein y gallant eu cwblhau, i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'u gofynion hyfforddi.<br><br>Mae'r cyrsiau'n cael eu darparu gan gyfuniad o reolwyr mewnol sydd â chymwysterau hyfforddi ychwanegol (e.e. symud a thrin), gweithwyr proffesiynol iechyd (e.e. SALT) neu gan hyfforddwyr allanol cymeradwy eraill (e.e. Cymorth Cyntaf)<br><br>Mae gennym ein gwefan ddysgu ar-lein ein hun - 'Time to Learn', ac ar hyn o bryd rydym yn llunio portffolio o gyrsiau ac adnoddau dysgu y gall staff eu cyrchu ar unrhyw adeg i gefnogi eu dysgu a'u datblygu.<br><br>**Cymwysterau** - Mae gennym raglen gynhwysfawr ar gyfer staff cymorth a rheolwyr i'w helpu i ennill y cymwysterau galwedigaethol argymelledig ar gyfer eu swydd, yn unol â Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau lleol i gynnig y cymwysterau hyn i staff, yn enwedig i'r rheini ar lefelau uwch.<br><br>**Cynllunio Datblygu Personol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus -** Mae Cynllun Datblygu Personol yr holl staff yn cael ei drafod a'i gofnodi yn ystod eu Goruchwyliaeth lle mae eu hanghenion dysgu a datblygu a'u dyheadau yn cael eu nodi a'u cofnodi.<br><br>Mae cynnydd yn nysgu a datblygiad staff yn cael ei fonitro trwy'r broses oruchwylio ac arfarnu, gyda'r Cynllun Datblygu Personol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ym mhob sesiwn oruchwylio.<br><br>Mae'r holl gyrsiau hyfforddi a fynychwyd a chyrsiau ar-lein a gwblhawyd yn cael eu cofnodi gan y tîm Dysgu a Datblygu a rhennir y wybodaeth hon gyda Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig a'r Rheolwr Ardal. |

## Adran 6: Cyfleusterau a gwasanaethau

### Gwasanaethau mewn llety yn unig

*Yn y rhan hon dylech ddisgrifio dyluniad, cynllun, cyfleusterau a/neu offer sydd ar gael a sut mae'r rhain yn cefnogi'r amrywiaeth anghenion sydd gan y bobl y bwriedir y gwasanaeth ar eu cyfer fel y'i disgrifir yn adran 3 uchod. Os oes unrhyw nodweddion unigryw neu benodol ynglyn â 'r rhan, dylech eu disgrifio yma.*

*NODER. Nid yw'r rhan hon yn berthnasol i drefniadau byw â chymorth*

***Dylech ddarparu gwybodaeth am:***

| | |
|---|---|
| *a)* ***Nifer yr ystafelloedd sengl ac a rennir*** | **Cegin/Man Bwyta (ystafell a rennir)**<br><br>19½ 'x 23'. Mae'r ystafell hon ar y dde i'r drws ffrynt. Mae cegin lawn yno gyda rhewgell/oergell, ynghyd â ffwrn ddwbl a hob gosod. Mae peiriant golchi llestr integrol hefyd. Mae'r gegin yn addas i denantiaid sydd eisiau mynd ati i baratoi eu prydau eu hun a helpu gyda dyletswyddau cyffredin – fel golchi'r llestri ac ati. Mae'r man bwyta yn cynnwys bwrdd bwyta a chadeiriau sy'n addas i'r tenantiaid a'r staff fel ei gilydd. Ym mhen pellaf y gegin, mae man eistedd bach gyda theledu, fideo, dvd a chwaraewr cerddoriaeth, ynghyd â dwy gadair gyffyrddus.<br><br>**Y Lolfa (ystafell a rennir)**<br><br>16' x 16'. I'r chwith mae'r drws i'r lolfa. Mae'r lolfa'n cynnwys soffa 3 sedd, soffa 2 sedd a chadair freichiau, tân trydan, teledu a fideo/dvd. Mae'r ystafell hon yn hygyrch i'r holl breswylwyr.<br><br>Ystafell y Staff (ystafell a rennir ar gyfer staff)<br><br>11' x 8'. Yn union ar y chwith i'r drws ffrynt mae'r swyddfa ac ystafell y staff lle cedwir yr holl allweddi mewn cwpwrdd wedi'i gloi ar gyfer meddyginiaeth, arian, ffeiliau'r tenantiaid ac ati. Mae'r staff yn defnyddio'r ystafell hon ar gyfer cyfarfodydd goruchwyliaeth, rhannu gwybodaeth. Mae cyfrifiadur a basn ymolchi yn yr ystafell hon er defnydd y staff. Mae holl eiddo personol y staff yn cael ei storio yn yr ystafell hon.<br><br>**Ystafell Amlbwrpas (ystafell a rennir)**<br><br>8'9'' x 8'. Mae'r ystafell hon gyferbyn â'r ystafell ymolchi. Mae dau beiriant golchi, peiriant sychu dillad, sinc a boeler nwy ar gyfer y gwres canolog, cwpwrdd i storio defnyddiau glanhau, ac arwynebau gwaith. Mae drws yn agor i'r ardd gefn. Defnyddir yr ystafell hon gan y staff a'r preswylwyr i gyflawni dyletswyddau golchi a sychu dillad ac i storio defnyddiau tŷ.<br><br>Ystafell Wely Un (ystafell sengl)<br><br>12'6" x 10'. Mae'r ystafell wely hon yn wynebu rhan flaen y byngalo ac mae o faint da. Mae'r ystafell wely'n |

| | |
|---|---|
| | cynnwys 6 soced trydan, rheiddiadur a phwynt erial. Mae set o ddodrefn ystafell wely o liw ffawydd yn yr ystafell.<br>**Ystafell Wely Dau (ystafell sengl)**<br>12'6" x 10'. Mae'r ystafell wely hon yn wynebu rhan flaen/ochr y byngalo ac mae o faint da. Mae'r ystafell wely'n cynnwys 6 soced trydan, rheiddiadur a phwynt erial. Mae set o ddodrefn ystafell wely golau yn yr ystafell hon.<br>**Ystafell Wely Tri (ystafell sengl)**<br>11' x 14'6''. Mae'r ystafell wely hon yn wynebu ochr yr eiddo. Mae'r ystafell wely'n cynnwys 6 soced trydan, rheiddiadur a phwynt erial Mae'n ystafell yn cynnwys trac ffrâm H ac mae iddi ddrws sy'n arwain i'r ystafell ymolchi. Mae basn ymolchi yn yr ystafell hefyd. Mae set o ddodrefn ystafell wely golau yn yr ystafell.<br>**Ystafell Wely Pedwar (ystafell sengl)**<br>10' x 12'. Mae'r ystafell wely hon yn wynebu rhan gefn yr eiddo a'r ardd gefn. Mae'n ystafell o faint da gyda 6 soced trydan, rheiddiadur a phwynt erial. Mae set o ddodrefn ystafell wely o bren pinwydd tywyll yn yr ystafell. Mae trac ffrâm H wedi'i osod yn yr ystafell hon.<br>**Ystafell ymolchi (ystafell a rennir)**<br>11'6" x 10'6". Mae'r ystafell ymolchi yng nghanol y cyntedd. Mae'n cynnwys bath Malibu uchel/isel gyda sedd fath yn sownd, ynghyd â basn ymolchi. Mae ynddi doiled Paros sydd â chyfleuster ar gyfer gofal personol. Mae tracio uwchben hefyd yn rhedeg o'r toiled i'r bath. Mae grisiau at ochr y bath i alluogi'r holl unigolion i gael eu helpu i gyrchu'r bath yn annibynnol.<br>**Ystafell Gawod (ystafell a rennir)**<br>6' x 8'. Mae'r ystafell gawod rownd y gornel i'r chwith. Mae'n cynnwys basn ymolchi bach, toiled a chawod cerdded i mewn gyda chyrten cawod a sedd tynnu i lawr. Mae'r ystafell hon yn hygyrch i'r holl unigolion. |
| b) **Nifer yr ystafelloedd gyda chyfleusterau en-suite** | Mae gan Ystafell Wely Pedwar ddrws sy'n arwain i'r ystafell ymolchi |
| c) **Nifer y mannau bwyta** | 1 |
| d) **Nifer y mannau cymunol** | 2 |
| e) **Cyfleusterau bathio arbenigol** | **Ystafell ymolchi (ystafell a rennir)** |

| | |
|---|---|
| | 11’6” x 10’6”. Mae'r ystafell ymolchi yng nghanol y cyntedd. Mae’n cynnwys bath Malibu uchel/isel gyda sedd fath yn sownd, ynghyd â basn ymolchi. Mae ynddi doiled Paros sydd â chyfleuster ar gyfer gofal personol. Mae tracio uwchben hefyd yn rhedeg o'r toiled i'r bath. Mae grisiau at ochr y bath i alluogi'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau i gyrchu'r bath yn annibynnol. |
| f) **Offer arbenigol** | ● Bath Uchel / Isel<br>● Teclyn codi ffrâm H yn ystafelloedd gwely 3 a 4<br>● Toiled Paros<br>● Offer cadair gawod ac ystafell doiled |
| g) **Y trefniadau sicrwydd sydd yn eu lle a'r defnydd o CCTV** | Mae Larwm Tresmaswyr yn bresennol ac yn gweithio’n iawn yn ystafell wely'r staff. Darperir cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r offer hwn.<br><br>Mae Larymau synwyryddion drws ar y drws ffrynt gyda chynlluniau yn eu lle ar gyfer defnyddio'r offer yn effeithiol.<br><br>Mae'r holl wybodaeth, arian, meddyginiaeth a gwybodaeth gyfrinachol yn cael eu cadw dan glo yn gywir, a'r unig rai all eu cyrchu yw'r rhai sydd eu hangen.<br><br>Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch ac y bydd staff yn cadw atynt.<br><br>Ni ddefnyddir CCTV |
| h) **Mynediad i'r mannau a'r cyfleusterau tu allan yn y gwasanaeth hwn** | Mae gardd o flaen ac wrth ochr yr eiddo, sydd wedi'i amgylchynu gan wal. Mae man parcio mawr gyda chyfleuster parcio ar gyfer 6 cherbyd. Mae'r ddaear yn wastad ac yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ddrysau'n ddigon llydan o i gadeiriau olwyn<br><br>Y tu ôl i'r eiddo mae lawnt fach â photiau blodau. Mae patio yn y rhan gefn ac wrth ochr y tŷ lle mae bwrdd a chadeiriau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaethau pan fo'r tywydd yn caniatáu. Mae'r ardd gefn yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn ac mae drws patio wrth ochr y drws cefn i fynd allan i'r ardd gefn. |

## Adran 7: Llywodraethu a threfniadau monitro ansawdd

Ein pwrpas yw ‘Cefnogi Pobl i fyw'r bywydau maen nhw'n eu dewis’

Mae’r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn sefydliad seiliedig ar aelodaeth gyda 196 o aelodau; ymhlith yr aelodau hyn, mae:

- 46 o bobl a gefnogwn
- 19 o aelodau teulu
- 27 o bobl a gyflogwn
- 99 o bobl annibynnol.
- 5 asiantaeth broffesiynol

Mae'r bobl hyn yn ethol ein Pwyllgor Rheoli yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
Mae gan ein Pwyllgor Rheoli le i 12 aelod:

- 1 yn Denant, 1 yn aelod o'r teulu; Mae 6 yn unigolion annibynnol, mae gennym ni 1 swydd wag ar gyfer aelod o'r teulu; 1 swydd wag ar gyfer aelod o staff a 2 le gwag i Denantiaid.

- Ein Cadeirydd yw **Stuart Harper.**



Mae ein Pwyllgor Rheoli yn cysylltu â'r isgrwpiau Tenants Lives a Managing the Consortium i gasglu barnau a gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad ynglŷn ag ansawdd ein gwasanaeth. Mae gennym hefyd Bwyllgor Iechyd a Diogelwch sy'n cyfarfod bob chwarter.




Mae ein staff a'n rheolwyr gweithredu yn casglu'r wybodaeth perfformiad ganlynol:

- Deilliannau personol cytunedig a chynlluniau cymorth sylfaenol ar gyfer pob person a gefnogwn.
- Yr holl achosion, pryderon, damweiniau, cwynion, achwyniadau a hysbysiadau, gyda manylion am sut cafodd y rhain eu hadrodd, sut y gweithredwyd arnynt a sut cawsant eu datrys.
- Y cymwysterau a'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan bob aelod o'r staff a'r dyddiadau pan gafodd y rhain eu cyflawni.
- Y cyflenwad o oriau cymorth o gymharu â'r oriau a gomisiynwyd ar gyfer, neu a brynwyd gan, bob person.

- Nifer yr oriau staff sydd ar gael i fodloni'r oriau cymorth gofynnol, lefelau absenoldeb a'r gyfradd drosiant yn cynnwys y rhesymau pam mae staff yn gadael.
- Y camau rheoli sy'n cael eu cymryd gan Reolwr Ardal 5 a Rheolwyr Cartrefi Gofal Cofrestredig i fynd i'r afael â materion a gwella'r gwasanaeth.

Caiff y wybodaeth hon ei hasesu yn erbyn meini prawf Coch, Ambr, Gwyrdd cytunedig sy'n ein galluogi i:

- ddathlu a nodi ble mae gwasanaethau yn perfformio'n dda i bobl
- nodi pa faterion mae angen mynd i'r afael â nhw ac nad ydynt yn cael eu datrys
- gweithredu lle mae angen gweld gwelliant.

Mae unigolion sy'n byw yn Nhal Y Wern yn dweud wrthym beth yw eu barn am eu bywydau a chefnogaeth trwy ein Hasesiad Lles Personol.

Rydym yn casglu adborth gan staff am eu barn am eu cyflogaeth trwy ein Harolwg Cyflogeion Blynyddol. Mae ein Comisiynwyr hefyd yn dweud wrthym beth yw eu barn am ein gwasanaethau trwy Adolygiadau Gwasanaeth.

Rheolwyr Cymorth Personol / Rheolwyr Cartrefi Gofal Cofrestredig Cynhelir Fforymau a Fforymau Staff Ategol bob 3 mis. Bydd adroddiadau a chynlluniau o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli.

**Gwneud cwynion**




Gallwch wneud cwynion mewn nifer o ffyrdd:

- Gellir gwneud cwyn i unrhyw aelod o staff y Consortiwm Bywydau Cymunedol. Mae hyn yn golygu y gallwch siarad â pha rai bynnag o'r aelodau staff rydych chi'n teimlo'n fwyaf cyffyrddus gyda nhw.
- Gwneud cwyn ar lafar, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.
- Gallwch wneud cwyn mewn ysgrifen, trwy lythyr, e-bost neu destun neges. Gallwch anfon eich cwyn mewn e-bost at complaints@communitylives.org neu drwy destun neges i 07814779935.

Gall eich Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig weithio gyda chi i ddatrys eich cwyn. Byddan nhw'n gwneud hyn o fewn 14 diwrnod, neu 28 diwrnod os ydych yn cytuno. Byddan nhw'n cytuno â chi ar gofnod ysgrifenedig o sut cafodd eich cwyn ei ddatrys.

Os ydych eisiau i rywun sy'n annibynnol oddi wrth eich gwasanaeth ddatrys eich cwyn, yna gallwn ofyn i swyddog ymchwilio drefnu hyn.  Byddan nhw'n cytuno ar adroddiad gyda chi ynglŷn â'r ymchwiliad a beth maen nhw wedi ei ddarganfod. Gallai hyn gymryd hyd at 35 diwrnod. Os bydd hyn yn cymryd mwy o amser, byddan nhw'n rhoi gwybod i chi.

Gallwch hefyd ofyn i'r **Adran Gwasanaethau Cymdeithasol** ddatrys eich cwyn:

- Gallwch gysylltu â thîm cwynion Cyngor Abertawe ar 01792 637345, neu drwy anfon e-bost at complaints@swansea.gov.uk.
- Gallwch gysylltu â thîm cwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763445, neu drwy anfon e-bost at complaints@npt.gov.uk.

Gall unigolion sy'n byw yn Nhal Y Wern hefyd gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'u ffonio ar 0300 790 0203 neu ymweld â'u gwefan yn https://www.ombwdsmon.cymru/

Bydd Corff Llais y Dinesydd (Llais) yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

*nptandswansea.enquiries@llaiscymru.org*